

Rydym ni i gyd wedi gweld y newyddion yn dilyn y digwyddiad emosiynol ddoe yn Ysgol Dyffryn Aman ac rwy'n siarad dros bawb pan ddwedaf ein bod ni i gyd yn meddwl am y rheiny sydd wedi eu heffeithio gan yr hyn a ddigwyddodd ddoe. Rydym yn dymuno gwellhad buan i'r rhai a anafwyd ac yn estyn ein dymuniadau gorau i bawb yn yr ysgol yn ystod y cyfnod anodd hwn.

Mae sicrhau diogelwch ein cymuned ysgol gyfan yn parhau i fod yn hollbwysig i ni. Roedd hwn yn ddigwyddiad ynysig a hoffwn eich sicrhau chi i gyd fod gan bob ysgol ar draws Sir Gaerfyrddin weithdrefnau llwyrngloi cadarn y cytunwyd arnynt mewn cydweithrediad â Chyngor Sir Caerfyrddin, fel y gweithredwyd yn effeithiol yn Ysgol Dyffryn Aman.

Hoffwn atgoffa pob rhiant a disgybl o gais Heddlu Dyfed-Powys nad oes unrhyw luniau/fideos cyfryngau cymdeithasol yn ymwneud â'r digwyddiad yn cael eu rhannu ar-lein a byddwn hefyd yn gofyn i bobl beidio â dyfalu wrth i ymchwiliad yr heddlu barhau.

Mae Heddlu Dyfed-Powys wedi gofyn i unrhyw un sydd â gwybodaeth, a allai helpu swyddogion gyda'u hymchwiliad, i gysylltu drwy eu [Porth Cyhoeddus pwrpasol](#).

Er ein bod i gyd wedi cael ein hysgwyl gan y digwyddiad prin a digynsail hwn, gofynnwn i bob rhiant gefnogi eu hysgolion a'r Cyngor Sir wrth i ni gynnal gweithgareddau arferol y cwricwlwm ysgol er lles ein holl blant.

We will have all seen the news coverage following yesterday's distressing incident at Ysgol Dyffryn Aman and I speak for us all when I say our thoughts are with those impacted by yesterday's event. We wish those injured a speedy recovery and extend our best wishes to all at the school during this difficult time.

Maintaining the safety of our whole school community continues to be of paramount importance to us. This was an isolated incident, and as implemented effectively at Ysgol Dyffryn Aman, I would like to reassure you all that every school setting across Carmarthenshire have robust lockdown procedures which are agreed in collaboration with Carmarthenshire County Council.

Can I remind all parents and pupils of Dyfed Powys Police's request that no social media footage relating to the incident is shared online and I would also ask people not to speculate whilst the police investigation is ongoing.

Dyfed Powys Police has asked if anyone has information that could help officers with their investigation to report it through their dedicated [Public Portal](#).

Whilst we have all been shaken by this rare and unprecedented incident we ask all parents to support their schools and the County Council as we maintain normal school curriculum activities for the benefit of all our children.

## Gareth Morgans

Cyfarwyddwr Addysg Gwasanaethau Plant  
Yr Adran Addysg a Gwasanaethau Plant, 3 Heol Spilman, Caerfyrddin SA31 1LE

Director of Education and Children's Services  
Education and Children's Services Department, Carmarthen, Carmarthenshire SA31 1LE